



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Papur i'r Bwrdd

29 Medi 2016

Teitl y Papur:	Dewisiadau amgen i Cypermethrin – diweddariad ar ein hymrwymiad i ddod â'r defnydd o alpha-cypermethrin a cypermethrin i ben ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru erbyn mis Hydref 2017
Cyfeirnod y Papur:	B B 59.16
Noddir y Papur gan:	Ceri Davies a Tim Jones
Cyflwynir y Papur gan:	

Diben y Papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi cynnydd wrth gyflawni ein hymagwedd reoli addasol tuag at amddiffyn planhigion rhag y chwilen <i>Hylobius abietis</i> (<i>Hylobius</i>) a mesurau mae eu hangen i barhau i gyflawni'r rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru.

Effaith: Noder - efallai nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	<p>Sut y mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:</p> <p>Edrych ar y <u>tymor hir</u>: buddsoddiad ymchwil a datblygiad mewn ystod o ddewisiadau amgen sy'n ymarferol ac yn effeithiol wrth barhau i leihau lefel gyffredinol y defnydd o gemegion yn ein gweithgareddau rheoli tir. Gwelliant parhaus o'n gwybodaeth am yr effeithiau rhagweledig sy'n deillio o newid hinsawdd ar gylch bywyd <i>Hylobius</i> a deinameg ei boblogaeth.</p> <p>Mabwysiadu dull <u>integredig</u>: mae ymagwedd rheoli coedwig integredig yn llywio gwaith ymchwil a datblygiad yn y DU ac mae camau gweithredu effeithiol wedi'u nodi ar draws y cylch rheoli coedwig.</p>
---	---

	<p>Cynnwys <u>amrywiaeth o'r boblogaeth</u>: mae rhanddeiliaid coedwigaeth, pysgota a'r amgylchedd wedi cymryd rhan mewn datblygu ac wedi derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd.</p> <p>Gweithio mewn modd <u>cydweithredol</u>: rydym yn cyfrannu at ac yn elwa ar raglen ymchwil a chyfnewid gwybodaeth ar draws y DU sy'n cynnwys tyfwyr a rheolwyr ar draws y sector coedwigaeth.</p> <p>Atal problemau rhag digwydd: mae gwell mesurau sydd wedi'u seilio ar wybodaeth ar draws y cylch rheoli coedwig yn cefnogi prosesau penderfynu gwell, ynghyd â mesurau rheoli coedwig megis lleihau'r defnydd o weithgareddau llwyrwgwmpo a systemau rheoli ailblannu, ac maent yn rhan bwysig o leihau'r golled o goed sydd newydd gael eu plannu, neu ddifrod iddynt, oherwydd <i>Hylobius</i>.</p>
--	--

Mater

Rydym wedi ymrwmo i leihau'r defnydd o gemegion ar dir rydym yn ei reoli er mwyn diogelu'r amgylchedd rhag risg annerbyniol. Yn 2014, gwnaeth y bwrdd gytuno â'r argymhelliad gan adolygiad mewnol (Atodiad 1) y dylem roi'r gorau i ddefnyddio alpha-cypermethrin a cypermethrin yn ein rhaglen gwarchod planhigion ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2017. Mae cynllun gweithredu penodol yn llywio ein cynnydd tuag at argymhellion yr adolygiad. Mae cynnydd da wedi bod i ganfod mesurau amgen ond, er gwaethaf dros ddegawd o fuddsoddiad mewn ymchwil ar draws y DU, treialon gweithrediadol a throsglwyddiadau o fesurau effeithiol i raglenni rheoli coedwigoedd a ariennir, nid oes unrhyw ddeunydd effeithiol i gyflawni holl agweddau peth defnydd o reolaeth gemegol. Bydd heriau sylweddol yn parhau os byddwn yn gallu cefnogi'r pecyn o fesurau yn y tymor byr, canolig a hir y mae eu hangen ar gyfer rhaglen lawn i warchod planhigion.

Cefndir

Mae'r chwilen *Hylobius* yn cael ei hadnabod yn eang fel y pla mwyaf difrifol ar gyfer coed sydd newydd eu plannu yn y DU ac fe all arwain at golled o 100% o goed conwydd a llydanddail a blannwyd ac aildyfiant naturiol. Mae pryfleiddiaid sbectwm eang alpha-cypermethrin a cypermethrin yn cael eu dosbarthu gan y Gyfarwyddiaeth Rheoleiddio Cemegion fel rhai sy'n gyfreithlon ac yn ddiogel i'w defnyddio mewn coedwigoedd er mwyn lleihau'r difrod gan *Hylobius*. Fodd bynnag, mae'r cemegion hyn ar y 'rhestr o gemegion peryglus iawn' a luniwyd gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (DU) ac, er nad oes statws cyfreithiol ganddo, mae'n golygu na ellir eu defnyddio ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru ond mewn cydymffurfiaeth â'r amodau eithrio a fydd yn dod i ben ar 31 Hydref 2017. Roedd y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (DU) wedi ymestyn ei amodau eithrio cychwynnol oherwydd diffyg dewisiadau cost-effeithiol eraill ac, er bod estyniad pellach yn annhebygol, mae prosesau'r Pwyllgor yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Mae cylch bywyd *Hylobius* yn cael ei ddylanwadu mewn modd penodol gan gwmpo ac ailstocio clystyrau o goed conwydd, ac mae hyn yn pennu gwasgariad gofodol a datblygiad y chwilen i raddau mawr. Mewn safleoedd sydd wedi'u llwyrwgwmpo, mae'n bosibl gweld

hyd at 84,000 o chwilod oedolion yn dod o foncyffion toredig neu sy'n marw ac sydd wedyn yn gallu teithio a bwydo ar blanhigion prenaidd hyd at 80 o gilomedrau i ffwrdd ond, fel arfer, 10 cilomedr. Bydd colledion ar gyfartaledd dros safle sydd wedi'i ailblannu, ac sydd ag ystod weithredol o fesurau rheoli, rhwng 5% a 25%. Heb ystod o fesurau rheoli gweithredol ac effeithiol, bydd angen gwaith plannu adferol costus i gyrraedd niferoedd stocio sy'n cydymffurfio â'r arfer gorau. Gall cynhyrchiant y safleoedd gael ei effeithio'n ddybryd pan fo twf anwastad yn lleihau cynnyrch wrth deneuo neu aeddfedu a bydd coed o ansawdd is yn ychwanegu at ad-daliad llai ar fuddsoddiadau. Bydd cyflenwi buddiannau adnoddau coetir ehangach, megis storio carbon, yn dioddef.

Mae *Hylobius* yn cael ei adnabod fel pla difrifol sydd wedi'i wasgaru'n eang yng nghoedwigoedd Ewrop, ond mae pwysau poblogaeth yn arbennig o drwm yn y DU ac yn gwneud y gwaith o gymharu mesurau rheoli â gwledydd Ewropeaidd eraill yn anodd oherwydd y canlynol:

- mae ein hanes o ddirywiad yn y coedwigoedd a'r broses gyflym o sefydlu coetiroedd ers 1945 yn gwbl wahanol i'n cymdogion Ewropeaidd;
- mae llawer o'n gwaith plannu ar ôl y rhyfel wedi ymdrin â phlannu coedwig gonwydd ac, wrth i'r adnodd hwn cyrraedd aeddfedrwydd, mae'r brif system reoli wedi cynnwys llwyrgwmpo ac ailblannu; ac oherwydd,
- mae ein hinsawdd yn fwy ffafriol i *Hylobius abietis* na hinsawdd ein cymdogion Ewropeaidd.

Amcangyfrifwyd bod y defnydd o cypermethrin ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru yn 2012 yn cyfrif am 5.2% o'i holl ddefnydd fel cynnyrch gwarchod planhigion cymeradwy yng Nghymru, gyda'r rhan fwyaf o'r cynnyrch yn cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol, garddwriaethol ac amwynderol, heb gynnwys defnyddiau milfeddygol a bywleiddiol cymeradwy. Mae cemegion yn ffurfio dim ond un rhan o'n rhaglen gwarchod planhigion ar gyfer Ystad Coetir Llywodraeth Cymru ac, ochr yn ochr ag ymchwil i gemegion eraill, mae hyder cynyddol mewn cyfuniad effeithiol o fesurau amgen: ffisegol, biolegol ac yn seiliedig ar wybodaeth. Mae rhai o'r dewisiadau di-gemegol eraill wedi profi'n effeithiol iawn, megis nematodau a llewys papur, er bod y rhai cyntaf wedi'u cyfyngu gan y dirwedd ac nid yw'r rhai olaf ond yn effeithiol ar lefelau poblogaeth isel. Mae mesurau eraill megis dulliau naturiol o wrthyrur'r chwilod, tywod, glud a chaenau cwyr yn aneffeithiol ar y cyfan. Mae dewis neonicotinoid amgen i cypermethrin, sef acetamiprid, yn rhan o raglen ymchwil y DU gyda threialon gweithredol yn digwydd ar draws y DU gan gynnwys Cymru.

Mae Forest Enterprise England (FEE) a Forestry Enterprise Scotland (FES) yn cydymffurfio â'r un rhanddirymiad gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (DU) er nad oes yr un o'r ddau wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus i roi'r gorau i ddefnyddio cypermethrin. Bydd FEE ar ôl 2017 yn plannu coed wedi'u cyn-drin gan gyflenwr meithrinffeydd ag alpha-cypermethrin, fel y bydd FES. Mae FES yn ystyried cais am randdirymiad pellach ar gyfer ôl-blannu triniaethau 'ychwanegol' yn y maes gan ddefnyddio cypermethrin tra bydd FEE yn defnyddio'r dewis neonicotinoid amgen, acetamiprid, yn lle cypermethrin. Mae sawl un o'r cwmnïau coedwigo mawr yn debygol o gyflenwi cais ar gyfer estyn y rhanddirymiad er mwyn parhau i ddefnyddio alpha-cypermethrin a cypermethrin, ond byddant hefyd yn defnyddio acetamiprid wrth iddo ddechrau bod ar gael. Mae rhai o'r cwmnïau coedwigo yn ystyried gwneud cais i'r Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (DU), sy'n orau ganddynt na'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (DU) lle nad yw defnyddio cypermethrin yn broblem.

Asesiad

Yn gynnar ym mis Medi 2016, gwnaeth y Tîm Gweithredol adolygu'r cynnydd o ran adolygu Cynllun Gweithredu 2014 a gwnaethant gytuno ar weithredu cyfuniad mwy effeithiol a fforddiadwy o fesurau rheolaeth goedwig Integredig. Mae Atodiad 2 yn manylu'r pecyn y cytunwyd arno ar gyfer mesurau rheolaeth goedwig integredig, gan ddangos sut maent yn ein helpu i gyflenwi'r rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru a'r heriau sy'n weddill. Mae'r ymagwedd integredig, gan ddefnyddio cyfuniad o dechnegau rheoli presennol a'r dulliau rheoli sydd ar gael yn cynnwys:

- Mabwysiadu'r System Cymorth Rheoli *Hylobius* ar draws yr holl raglen, er mwyn llywio penderfyniadau rheoli;
- Mabwysiadu trefn ddi-driniaeth, pan fydd y System Cymorth Rheoli *Hylobius* yn rhagweld y bydd hyn yn ymagwedd synhwyrol;
- Mabwysiadu cyfnod braenar pum mlynedd ar dirwedd uchel, llennyrch llai ffrwythlon, a lle na fydd ystyriaethau rheoli eraill yn cael blaenoriaeth;
- Parhau i ddefnyddio rhwystrau ffisegol, pan ragwelir y bydd poblogaethau gwiddon yn isel i ganolog;
- Parhau i ddefnyddio nematodau, pan fydd triniaeth ddilynol mewn blociau coedwig ar wahân yn cynnig y gwerth am arian gorau wrth ddefnyddio'r driniaeth gostus hon;
- Mabwysiadu'r defnydd o acetamiprid, fel yr unig ddull posibl a chyn gynted ag mae'r dulliau gweithredu wedi cael eu profi.

Gellir monitro a datblygu ymhellach yr ymagwedd hon wrth inni ddysgu a datblygu dulliau a datrysiadau newydd.

Er bod y defnydd o cypermethrin wedi lleihau bron yn 50% dros y chwe blynedd diwethaf, mae data yn dangos bod dulliau rheoli cemegion yn parhau i fod yn sylweddol pan fyddwn yn profi pwysau poblogaeth chwilod uchel ac anaddasrwydd o ddewisiadau amgen ar draws yr ystod o safleoedd yn y rhaglen. Wedi'i seilio ar gynnydd hyd yma, mae'r defnydd integredig o fesurau di-gemegol amgen yn cynnig dim ond modd i warchod planhigion yn rhannol gyda methiant i gyflawni'r arferion gorau o ran ailstocio ar draws 20% i 40 % o'r rhaglen ailblannu yn debygol iawn.

Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r canlynol:

- y cynnydd ar gyflenwi'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad 2014 o'r defnydd o cypermethrin ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru
- ein bod yn parhau gyda'n hymagwedd rheoli coedwigoedd integredig er mwyn lleihau'r difrod gan *Hylobius* i goed sydd newydd gael eu plannu; ac,
- y byddwn yn parhau i ddysgu ac addasu ein rhaglenni gwaith wrth i heriau godi gan gynnwys pa mor fforddiadwy yw'r mesurau; ac,
- ein bod yn parhau i fod yn ymrwymedig i roi'r gorau i ddefnyddio cypermethrin a lleihau'r defnydd o fesurau rheoli cemegion amgen.

Risgiau Allweddol

Drwy gadw at ein hymrwymiad i roi'r gorau i ddefnyddio cypermethrin yn ein rhaglen gwarchod planhigion ar ôl 31 Hydref 2017, mae'r risgiau sy'n weddill yn cynnwys y canlynol:

- Bydd dim ond mesurau **gwarchod planhigion yn rhannol** ar gael yn y tymor byr wrth inni fodloni ein hunain y gellir lleihau'r risg amgylcheddol gan systemau cyflenwi

cemegion ac oherwydd nad yw dewisiadau di-gemegol presennol eraill yn gymwys neu'n effeithiol ar draws yr holl safleoedd mae angen triniaeth arnynt.

- Bydd rhoi'r gorau i ddefnyddio cypermethrin yn **cynyddu cost** ein rhaglen gwarchod planhigion. Mae'r cyfuniad o ddulliau cemegol a di-gemegol yn fwy costus ac mae angen newidiadau mewn arferion gwaith, sgiliau a hyfforddiant newydd i leihau risgiau a sicrhau effeithiolrwydd.
- **Difrod i'n henw da.** Er ein bod wedi ymrwymo i roi'r gorau i ddefnyddio cypermethrin erbyn mis Hydref 2017, mae'n bosibl y bydd defnyddio un cemegyn yn lle un arall, er gwaethaf y lleihad mewn defnyddio cemegion yn gyffredinol, yn peri i bryderon grwpiau pysgodfeydd a'r amgylchedd gael eu "trosglwyddo" yn hytrach na mynd i'r afael â nhw.
- **Gwneud drwg i'n henw da.** Os byddwn yn darparu gwarchodaeth rannol i blanhigion yn unig, bydd ein hymrwymiad i ddarparu coed o ansawdd a buddiannau adnoddau eraill gan goetiroedd yn peryglu'r rhaglen rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a bydd yn codi pryderon ym marchnad y sector coedwigaeth.
- Byddwn yn **disodli'r risg i'r amgylchedd** drwy gynyddu'r angen am driniaeth chwynladdwyr er mwyn sefydlu coetiroedd ar rai safleoedd yn llwyddiannus (yn dilyn cyfnod braenar estynedig). Bydd estyn y cyfnod braenar o bosibl yn cynyddu 'hedfan i mewn' gan chwilod oedolion i dyfwyr coedwig eraill y bydd yn well ganddynt driniaethau cemegol.
- **Methiant i leihau poblogaeth cefndir *Hylobius*** i lefelau lle mae mesurau rheoli yn fwy effeithiol a gellir lleihau defnyddio cemegion. Er nad yw'n datrys yr holl broblemau, bydd mwy o ymrwymiad a buddsoddiad ar draws y sector coedwigaeth i gynyddu'r broses blannu, defnyddio a monitro Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith yn helpu i ddatrys yr achos (llawer o ddeunydd bridio) yn hytrach na dim ond trin symptomau (lefelau poblogaethau chwilod endemig).
- **Risg i'r amgylchedd** sydd wedi newid ac (mewn rhai achosion) anhysbys gan ddefnydd cynyddol o gemegyn newydd, acetamiprid, sydd angen hyfforddiant ar gyfer goruchwylwyr a chontractwyr ynghyd â monitro amgylcheddol ac asesiad o gadw at yr arfer gorau.
- **Cynnal y system ardystio i Safon Sicrwydd Coetir y DU** wrth inni wynebu'r her o ddefnyddio'r cyfuniad gorau o fesurau rheoli gyda lleiafswm o ddefnydd cemegol.

Goblygiadau Ariannol

Mae cost ein rhaglen gwarchod planhigion tua £515,000, sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar nodweddion y safle, pwysau poblogaeth a ragwelir neu a arsylwir, a cholledion coed gwirioneddol. Amcangyfrif y bydd y gost ychwanegol bron yn £360,000, sy'n deillio o'r cytundeb ynglŷn â'r canlynol:

- Bwrw ati i fabwysiadu'n llwyr y drefn cymorth penderfyniadau (System Cymorth Rheoli *Hylobius*) gan gynyddu gwaith maes, mewnbwn data a dadansoddi;
- Cynyddu gwariant ar driniaeth chwynladdwyr o ganlyniad i dwf chwyn prenaidd yn dilyn cyfnodau braenar sydd wedi'u hystyng;
- Uchafu'r defnydd o lewys papur cwyr ar gyfer tua 10% o'r rhaglen;
- Targedu'r defnydd o driniaeth nematod ar gyfer tua 20% o'r rhaglen;
- Lleihau'r defnydd o'r cemegyn acetamiprid mwy costus fel triniaeth cyn-blannu a thriniaeth ôl-blannu ychwanegol, ond dim ond pan fydd angen; a,
- Adfer y colledion planhigion a fydd yn digwydd os na fydd acetamiprid yn barod i'w weithredu erbyn mis Hydref 2017.

Gellir mynd i'r afael â'r costau ychwanegol yn y tymor byr i ganolig drwy uchafu ad-daliadau ar werthiannau coed (drwy ein Cynllun Marchnata Coed 2017-2021), er bod hyn yn dibynnu ar brisiau coed, sy'n codi ar hyn o bryd. Yn yr hirdymor, gellir cwrdd â chostau

drwy wneud newidiadau i'n harferion rheoli i leihau'r angen am fesurau rheoli costus. Fodd bynnag, bydd cyllid ar gyfer gweithgareddau eraill yn dod o dan bwysau wrth inni geisio cwrdd â'r gost a'r buddiannau sy'n deillio o weithredu rhaglen lawn i warchod planhigion ac ailsefydlu coetir yn llwyddiannus ar ôl llwyrgwmpo.

Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i lunio (Atodiad 2). Daeth yr ymarferiad sgrinio cychwynnol i'r casgliad nad oedd angen asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb.

Mynegai o Atodiadau

Atodiad 1: Crynodeb gweithredol o adolygiad 2014

Atodiad 2: Rhoi argymhellion/cynllun gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith o waith a gomisiynwyd ac a gwblhawyd yn 2016/191114

Atodiad 2: Pecyn y cytunwyd arno ar gyfer mesurau rheoli coedwigoedd integredig sy'n dangos sut maent yn ein helpu i gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ar Ystad Goetir Llywodraeth a'r heriau sy'n weddill.

Atodiad 3: Sgrinio'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

Atodiad 2

Pecyn y cytunwyd arno ar gyfer mesurau rheoli coedwigoedd integredig sy'n dangos sut maent yn ein helpu i gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ar Ystad Goetir Llywodraeth a'r heriau sy'n weddill.

Egwyddor Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy	Mesurau gweithredol/y cytunwyd arnynt	Mae heriau sy'n weddill yn cynnwys:
Rheoli mewn modd ymaddasol	<ul style="list-style-type: none">• Mabwysiadu'r defnydd o System Cymorth Rheoli Hylobius ar draws yr holl raglen, er mwyn llywio penderfyniadau rheoli.• Ymagwedd rheoli coedwigoedd integredig wedi'i sefydlu'n dda gyda chynllun gweithredu i adolygu cynnydd.• Portffolio hyblyg i reoli dulliau rheoli gan fod rhai wedi'u cyfyngu gan y dirwedd, lleoliad, neu lefelau poblogaeth chwilod.• Mae'r is-grŵp ailblannu ar gyfer rheoli tir BAR wedi ystyried yn ofalus technegau ailsefydlu amgen ar gyfer y rhaglen dair blynedd bresennol.	<ul style="list-style-type: none">• Mae newidiadau mewn patrymau tywydd yn effeithio ar bwysau poblogaethau <i>Hylobius</i> yn ystod y flwyddyn ac o flwyddyn i flwyddyn (mae tymheredd a chyflymder y gwynt yn effeithio ar bryd byddant yn dod allan).• Pa mor fforddiadwy yw rhai mesurau yn enwedig y lefelau buddsoddi mae eu hangen er mwyn sefydlu lefelau iechyd, diogelwch a gwarchodaeth yr amgylchedd addas a chefnogi'r defnydd o'r System Cymorth Rheoli Hylobius.• Mae gennym eisoes fanc tir 3.55 blwyddyn yn 2017/18, ac er y gellir ailstocio rhai safleoedd yn syth ar ôl cwmpo, gellir oedi rhai am bum mlynedd, heb ychwanegu sylweddol i'r banc tir – ond mae hyn yn fater sy'n gofyn am fonitro gofalus.
Graddfa	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r System Cymorth Rheoli Hylobius yn ymateb i nodweddion y safle a phwysau poblogaeth safle rhagweledig drwy waith maes.• Bydd parhad ymchwil gydweithredol yn y DU a'i dosbarthiad yn helpu'r holl reolwyr coedwig i fanteisio ar ddulliau rheoli coedwigoedd integredig ar draws y cylch rheoli coedwig.• Bydd lleihad yn y defnydd o systemau llwyrgwmpo yn helpu rheoli pwysau poblogaeth <i>Hylobius</i>.	<ul style="list-style-type: none">• Ymrwymiad corfforaethol cryfach a buddsoddiad mewn cynllunio, defnyddio a monitro Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith a fydd yn helpu i fynd i'r afael â datrys yr achos (llawer o ddeunydd bridio) yn hytrach na dim ond trin symptomau (lefelau poblogaethau chwilod endemig).• Diffyg data wedi'i fapio'n ofodol a chymorth system ar gyfer defnyddio System Cymorth Rheoli Hylobius.

Cydweithio ac ymgysylltu	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen ymchwil a datblygu y DU sy'n weithredol ac wedi'i chyllido gyda dosbarthiad ar draws y sector coedwigaeth ac ar gael i'r cyhoedd. • Mae ein hadolygiad 2014 wedi cael ei rannu â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ein gweithredoedd oblygiadau ar gyfer tyfwyr eraill yn enwedig ein cymdogion. • Bydd ymagweddau gwahanol rhwng tyfwyr yn lleihau effeithiolrwydd rhai mesurau rheoli ac mae'n bosibl y byddant yn cynyddu'r angen am reoli cemegol.
Cyfranogiad y cyhoedd	<p>Rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid coedwigaeth, pysgota ac amgylcheddol ar gynnydd a materion y Cynllun Gweithredu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oes croeso i gemegion amgen gan grwpiau pysgodfeydd ac amgylcheddol. • Mae tyfwyr coedwig yn pryderu am y pecyn rhannol o ddulliau amgen integredig with i fis Hydref 2017 agosáu.
Tystiolaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad 2014 • Rhaglen ymchwil a datblygiad y DU • Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd o raglen gwarchod planhigion flynyddol • Canlyniadau o ar draws ein rhaglen monitro'r amgylchedd • Y defnydd o System Cymorth Rheoli Hylobius 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cyllid ymchwil a neilltuir i ddewisiadau rheoli <i>Hylobius</i> amgen yn llawn ond mae bylchau mewn tystiolaeth yn parhau. • Mae capasiti cyfyngedig i lenwi'r bwlch cyllid er mwyn sicrhau lleiafswm o niferoedd stocio a gallai hyn effeithio ar argaeledd coed Cymru yn y dyfodol. • Mae angen cynyddu hyder ar draws y sector coedwigaeth o ran effeithlonrwydd dewisiadau amgen i driniaeth gemegol. • Mae angen gwelliant er mwyn canfod a monitro mesurau rheoli cemegol yn ein rhaglenni ansawdd dŵr ac er mwyn llywio Aseidiadau Rheoliadau Cynefinoedd yn y dyfodol.
Buddion lluosog	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gennym ddyletswydd i sefydlu'n llwyddiannus safleoedd coetir wedi'u hailblannu a fydd yn cyflawni ystod o fuddion i'r economi, yr amgylchedd a phobl. • Rydym yn parchu bod ein gweithredoedd yn cael goblygiadau ar gyfer perchnogion a rheolwyr coedwigoedd eraill, yn enwedig ein cymdogion. • Cymryd mantais ar aildyfiant 	<ul style="list-style-type: none"> • Heb warchod planhigion yn rhannol neu ddim o gwbl, bydd goblygiadau sylweddol o ran llif buddsoddiadau ac ad-daliadau gydag effeithiau ar botensial cynhyrchiol yr ystad yn y dyfodol. • Gellid gwneud y gorau o fuddion eraill ond mae Ystad Coetir Llywodraeth yn cyflenwi 60% o goed Cymru sydd ar gael ar hyn

	naturiol pan fo'n addas i gyrraedd nodau'r safle.	o bryd.
Camau gweithredu ataliol	<ul style="list-style-type: none"> • Mabwysiadu trefn ddi-driniaeth, pan fydd y System Cymorth Rheoli Hylobius yn rhagweld y bydd hyn yn ymagwedd gall. • Mabwysiadu cyfnod braenar pum mlynedd, pan ragwelir y bydd yr arfer hwn yn effeithiol ar gyfer y System Cymorth Rheoli Hylobius ac na fydd amcanion rheoli eraill yn cael blaenoriaeth. • Parhau i ddefnyddio rhwystrau ffisegol, pan ragwelir y bydd poblogaethau gwiddon yn isel i ganolog. • Parhau i ddefnyddio nematodau, pan fydd triniaeth ddilynol mewn blociau coedwig ar wahân yn cynnig y gwerth am arian gorau wrth ddefnyddio'r driniaeth gostus hon. • Mabwysiadu'r defnydd o acetamiprid, fel triniaeth cyn-blannu a thriniaeth ôl-blannu ychwanegol cyn gynted ag mae dulliau gweithredu wedi cael eu profi ond hefyd pan dyma'r unig ddull posibl. • Uchafu'r defnydd o lewys papur cwyr. • Adfer colledion planhigion, er mwyn cyflawni lleiafswm safonau stocio niferoedd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflawni cytbwysedd o safleoedd sy'n addas ar gyfer plannu cyflym a chyfnod braenar pum mlynedd i reoli'r 'banc tir'. • Pa mor fforddiadwy yw rhai mesurau yn enwedig y lefelau buddsoddi mae eu hangen er mwyn sefydlu lefelau iechyd, diogelwch a gwarchodaeth yr amgylchedd addas a chefnogi'r defnydd o'r System Cymorth Rheoli Hylobius. • Mae cyflwyno cemegion newydd a mesurau rheoli yn gofyn am fuddsoddiad mewn hyfforddiant staff a contractwyr i ddiogelu iechyd, diogelwch a'r amgylchedd. • Rydym yn parhau i fod yn ddibynnol iawn ar driniaeth gemegol i gyflawni gwarchodaeth lawn i blanhigion, yn bennaf oherwydd y cyfyngiadau ar ddewisiadau amgen yn enwedig ar dirwedd serth, pwysau poblogaethau <i>Hylobius</i>, a chyfyngiadau ariannol. • Nematodau a gyfyngir gan y dirwedd, lleoliad ac adnoddau contractwyr cyfyngedig ac nid ydynt yn effeithiol fel arfer fel mesur ar ei ben ei hunan. • Dim ond trosglwyddo i ddefnydd llawn o acetamiprid pan ydym yn hyderus o ran y systemau cyflenwi gweithredol a lleihau risgiau i'r amgylchedd. Angen parhaus i gefnogi treialon cymorth gweithredol. • Angen cynyddol am ddefnyddio chwynladdwyr wrth i waith rheoli chwyn ar safleoedd braenar ddod yn broblem.
Yr hirdymor	<ul style="list-style-type: none"> • Mae ein cynllun gweithredu yn gosod fframwaith o fesurau tymor 	Er bod cynnydd yn cael ei wneud, mae'n araf ac yn gofyn am

	<p>byr, canolig a hir.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gennym ddyletswydd i sefydlu'n llwyddiannus safleoedd coetir wedi'u hailblannu. • Lleihau'r ddibyniaeth ar lwyrgwmpo, a fydd yn lleihau darnau dwys iawn o ddeunydd bridio ac yn helpu i reoli poblogaethau <i>Hylobius</i>. 	<p>gydweithrediad ac ymrwymiad ar raddfa ehangach rhwng perchnogion tir a rheolwyr.</p>
<p>Meithrin cydnerthedd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Safon Coedwigaeth y DU yn nodi'r gofynion ar gyfer arferion coedwigaeth da. • Mae gennym dri chanllaw ar gyfer arfer da i annog cydnerthedd yng nghoetiroedd Cymru: amrywiaeth strwythurol, dewis o rywogaethau coed, a chadwraeth ac amrywiaeth genetig. 	<p>Er bod cynnydd yn cael ei wneud, mae'n araf ac yn gofyn am gydweithrediad ac ymrwymiad ar raddfa ehangach rhwng perchnogion tir a rheolwyr.</p>